

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYFARFOD:	Cyngor Sir Ynys Môn
DYDDIAD:	9 Mawrth 2021
TEITL YR ADRODDIAD:	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - diweddariad
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi diweddariad i'r Cyngor ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chytuno ar gynllun gweithredu
ADRODDIAD GAN:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro

1. Cefndir

- 1.1 Pasiwyd y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) [y Mesur] gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020, union flwyddyn ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn 2019. Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.
- 1.2 Roedd y Mesur yn un o ddim ond dau Fesur yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i barhau yn ystod COVID 19. Cafodd y Mesur ei flaenoriaethu o ystyried yr amserlenni y mae'n rhaid cwrdd â nhw er mwyn cyflwyno'r diwygiadau etholiadol a gynigir mewn da bryd ar gyfer etholiadau lleol 2022.
- 1.3 Mae dolenni i'r dogfennau perthnasol ar gael yma:
 - [Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) fel y'i paswyd yng Ngham 4 \(Tachwedd 2020\)](#)
 - [Memorandwm Esboniadol Diwygiedig \(Tachwedd 2020\)](#)
 - [Datganiad o Fwriad Polisi \(Tachwedd 2019\)](#)
- 1.4 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 [y Ddeddf] yn ffrwyth sawl blwyddyn o ymgynghori ar bolisi, gan gynnwys:
 - Mesur Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) - Tachwedd 2015
 - Ymgynghoriad ar Ddiwygio Etholiadol - Hydref 2017
 - Diwygio Llywodraeth Leol: Papur Gwyn - Cadernid ac Adnewyddiad - Ionawr 2017
 - Ymgynghoriad ar Bwerau a Hyblygrwydd - Ionawr 2018
 - Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni i Bobl - Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru – Mehefin 2018
- 1.5 Mae'r Ddeddf yn sylweddol ac yn ymdrin ag ystod o bynciau, yn amrywio o ddiwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad i weithio rhanbarthol. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn cyflwyno:
 - 1.5.1 **Diwygio trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys;**
 - ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithiol yng Nghymru,
 - galluogi cynghorau i ddewis rhwng y system bleidleisio 'y cyntaf i'r felin' neu'r system 'pleidlais sengl drosglwyddadwy',

- Newid cylch etholiadol ar gyfer prif gynghorau o bedair blynedd i bum mlynedd,
- Caniatáu i staff y Cyngor sydd mewn swyddi heb gyfyngiadau gwleidyddol sefyll mewn etholiad yn eu hawdurdod eu hunain (ond dylent ymddiswyddo os cânt eu hethol),
- Dileu Ffioedd Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol, lle bo hynny'n berthnasol.

1.5.2 Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol (Gall cynghorau wneud unrhyw beth i hyrwyddo eu rhaglenni ar yr amod nad yw'r gweithredoedd wedi'u gwahardd yn gyfreithiol);

1.5.3 Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;

- Dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol (a chynhyrchu strategaeth i'r perwyl hwnnw);
- Dyletswydd i wneud cynllun deisebu (a diddymu arolygon cymunedol);
- Dyletswydd i ddarlledu rhai cyfarfodydd;
- Mwy o hyblygrwydd o ran presenoldeb aelodau o bell.

1.5.4 Diwygiadau ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd, gan gynnwys ;

- Penodi Prif Weithredwyr (yn hytrach na phennaeth gwasanaeth taledig) â dyletswyddau penodol;
- Penodi cynorthwyr i bwyllgorau gwaith (aelodau eraill) a chaniatáu i arweinwyr neu aelodau pwyllgorau gwaith rannu swyddi;
- Diweddarau darpariaethau absenoldeb teulu yn unol â'r rheini sydd ar gael i weithwyr (trwy reoliadau);
- Ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o'u grwpiau.

1.5.5 Cydweithio;

- Pwerau i gynghorau gychwyn sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforedig (CBC) sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau;
- Pwerau i Weinidogion sefydlu CBC sy'n cynnwys pedair swyddogaeth, sef lles economaidd, trafnidiaeth, cynllunio strategol a gwella ysgolion. Mae hwn yn fater a fu'n destun sesiwn frifio eisoes i'r Aelodau ar 4 Chwefror 2021.

1.5.6 Diwygio'r drefn perfformiad a llywodraethu;

- Diddymu dyletswyddau Mesur 2009, gan ddisodli dyletswyddau archwilio ac adrodd gyda hunanasesiad ac asesiad gan banel (adolygiad cymheiriaid annibynnol);
- Diwygiadau i Bwyllgorau Archwilio, ailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a rhagnodi aelodaeth a chadeirydd. Rhaid i draean yr aelodau fod yn aelodau annibynnol cyfetholedig a rhaid i un ohonynt gadeirio);

1.5.7. Pwerau i hwyluso uno gwirfoddol prif gynghorau

- 1.6 Mae aelodau wedi derbyn “Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu” eisoes trwy ohebiaeth e-bost (ar 8 Ionawr 2021). Roedd hon yn ddogfen waith a oedd yn crynhoi'r prf newidiadau sy'n effeithio ar y Cyngor hwn yn sgil y ddeddfwriaeth;

roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn fyddai ei angen i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

2 Materion allweddol i'w hystyried

- 2.1 Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Fe'i adnabyddir fel Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- 2.2 Mae darpariaethau 'Dod i Rym' y Ddeddf yn gymhleth, gyda rhai darpariaethau yn dod i rym o fewn dyddiau i'r Cydsyniad Brenhinol, eraill o fewn dau fis a'r mwyaf trwy offerynnau statudol Gweinidogol nad yw eu holl ddyddiadau yn hysbys eto.
- 2.3 Bydd llinell amser wedi'i diweddarau a manylach yn cael ei rhannu pan fydd ar gael, ond yn gyffredinol rhagwelir:
 - 2.3.1 Bydd rheoliadau CBC yn cael eu cyflwyno yn y Senedd yn ystod misoedd Chwefror-Ebrill 2021, iddynt gychwyn yn yr haf (gyda chyfarfod cyntaf y CBC wedi ei drefnu ar gyfer diwedd mis Medi 2021), yn amodol ar ystyriaeth bellach gan y Gweinidog o gofio bod ymgynghoriad yn parhau ar y mater hwn. Cymeradwyodd Panel Moderneiddio'r Cyngor ein hymateb i'r ymgynghoriad ac fe'i dosbarthwyd i'r holl aelodau ar 24 Rhagfyr 2020.
 - 2.3.2 Bydd materion presenoldeb o bell a materion cysylltiedig yn cychwyn o Mawrth 2021;
 - 2.3.3 Bydd trefniadau perfformiad a llywodraethu yn cychwyn o Ebrill 2021 (gyda'r adroddiad perfformiad terfynol o Fesur 2009 yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2021). Yn amodol ar benderfyniad i'r perwyl gan y Cyngor, gellir cynnal yr adolygiad cymheiriaid cyntaf yn fuan ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.
 - 2.3.4 Bydd y rhan fwyaf o'r diwygiadau etholiadol yn cael eu cyflwyno mewn pryd i'w gweithredu yn etholiadau lleol 2022;
 - 2.3.5 Bydd pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cychwyn o fis Tachwedd 2021, a
 - 2.3.6 Bydd dyletswyddau cyfranogiad cyhoeddus, darlledu cyfarfodydd a dyletswyddau cynghorwyr newydd yn dod i rym o etholiadau lleol 2022.
- 2.4 Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgynghori ar y Rheoliadau drafft i Sefydlu CBC a chyn bo hir bydd yn ymgynghori ar Reoliadau Cymhwyso Cyffredinol a chanllawiau statudol ar gyfer CBC. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau statudol drafft ar 'berfformiad a llywodraethu prif gynghorau'. Mae hwn yn fater a fu'n destun sesiwn friffio i'r Aelodau eisoes ar 4 Mawrth 2021.
- 2.5 Yn ychwanegol at y canllawiau statudol ar CBC a pherfformiad a llywodraethu, rhagwelir y bydd sawl set o offerynnau statudol yn cael eu gosod a bydd 5 o nodiadau canllaw statudol eraill yn cael eu cynhyrchu yn ystod y 12 mis nesaf (yn ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd, dyletswyddau aelodau pwyllgorau gwaith

ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, cydweithio, uno cynghorau yn ogystal â chanllawiau sgriwtini wedi'u diweddarau (yn seiliedig ar Fesur 2011).

3 Effaith ar y Cyngor hwn

3.1 O ran ein Cyngor ni, mae **Atodiad A** yn cynnwys Cynllun Gweithredu. Mae hon yn ddogfen a ddatblygwyd ar sail y Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu (y cyfeirir ato yn 1.6 uchod). Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf a'r gwaith a wnaed hyd yma / yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod y Cyngor hwn yn barod ar gyfer cyflwyno gwahanol elfennau o'r Deddf gyda hyn. Gofynnir i'r Cyngor ystyried a chytuno ar gynnwys **Atodiad A**.

4 Argymhellion

4.1 Bod y Cyngor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu atodol (**Atodiad A**)

4.2 Bod adroddiadau pellach sy'n manylu ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael eu monitro gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020: Cynllun Gweithredu – f1

Mae hon yn ddogfen fyw a rhagwelir bydd yn cael ei diweddarau fel bo'r angen.

Arhosir am gadarnhad gan LLC ynghylch amserlen pob rhan o'r Bil. Bydd y Cynllun Gweithredu yma yn cael ei ddiweddarau er mwyn cynnwys unrhyw wybodaeth bellach gaiff ei dderbyn.

Darpariaethau	Camau Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Diweddariad ar Gynnydd	Yn dod i rym yn unol ag adran 175 y Bil
Rhan 1 Etholiadau				
Estyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16/17 oed a dinasyddion tramor cymwys (adran 2)	<ul style="list-style-type: none"> Rhodddwyd sylw i hyn drwy ganfasio: ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a newid i'r feddalwedd Gwasanaethau Etholiadol Mae'r Gwasanaethau Etholiadol yn gweithio gyda'r Tîm Cydraddoldeb i gefnogi'r darn hwn o waith 	JHJ	Yn parhau – cofrestru yn newid yn rhannol fel rhan o'r Canfasio Blynyddol 2020 a cyhoeddir cofrestr wedi'i diweddarau ar 1/12/20 gwefan wedi'i diweddarau	Yr hawl i gael eu cofrestru fel Etholwr Llywodraeth Leol – ddau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021]. Mae darpariaethau eraill yn dod i rym ddau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol ond ni fyddant yn effeithiol tan 5 Mai 2022 ac wedi hynny yng nghyswllt Etholiadau Llywodraeth Leol a Refferendwm Lleol.

			Cynllun gweithredu wedi'i baratoi er mwyn codi ymwybyddiaeth. Tasg wedi'i chefnogi gan swydd dros dro (drwy nawdd grant – ers Ionawr 2021)	
Hybu ymwybyddiaeth ynghylch cofrestru pobl ifanc berthnasol a darparu cymorth (adran 4)	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu strategaeth er mwyn hybu ymwybyddiaeth Sicrhau bod rhaglenni gwaith i godi ymwybyddiaeth yn cydfynd ag ymgyrch y Comisiwn Etholiadol. 	JHJ	Yn parhau gweler uchod	Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021]
Dwy system bleidleisio. Y System mwyafrif syml a'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. (Adrannau 5–12)	<ul style="list-style-type: none"> Y system mwyafrif syml fydd yn gymwys oni bai a hyd y bydd y Cyngor yn newid y system bleidleisio am y tro cyntaf. Diweddarau'r Cyfansoddiad i roi sylw i'r weithdrefn y bydd rhaid ei dilyn ynghylch cynnig i newid system bleidleisio'r Cyngor, gan adlewyrchu mewn rhan y byddai'n rhaid cael penderfyniad cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd 3 blynedd cyn y flwyddyn lle bydd etholiad cyffredin nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ynddi, a'r gofynion am ymgynghori. Penderfyniad Cyngor (ddim yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith) gyda lleiafswm aelodau yn bresennol ayyb. (adran 9 yn benodol)LI/C / Comisiwn Ffiniau sy'n trefnu wardiau aml-aelod, er mai penderfyniad ar gyfer CSYM ydi os yw am fabwysiadu system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy o fewn y ffiniau sydd wedi eu gosod. Yn absenoldeb unrhyw benderfyniad fel arall, parheir gyda'r system mwyafrif syml bresennol. Angen eglurhad ar y cyfyngiadau yn Adran 12 ar nifer y Cynghorwyr os yw'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn gymwys ar gyfer ethol Cynghorwyr i Brif Gyngor, ni chaiff nifer y Cynghorwyr i bob Ward Etholiadol fod yn llai na 3 nac yn fwy na 6. 	LB/JHJ	Adolygu yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022	6 Mai 2022

Newid y cylch etholiadol ar gyfer Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned, ynghyd â Meiri Etholedig o bedair blynedd i bum mlynedd ac estyn y pŵer i Weinidogion Cymru allu newid diwrnod arferol etholiadau yng Nghymru (Adrannau 14-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau i wefan y Cyngor • Diwygio'r cyfeiriad yn y Cyfansoddiad • Rhoi gwybod i Aelodau 	LB/JHJ	Parhaus – gweler uchod	Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021]
Cofrestru Etholwyr Llywodraeth Leol heb gais (Adran 18)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen sefydlu systemau i sicrhau bod trefn briodol o hysbysu a chadw cofnod mewn lle 	JHJ	Parhaus	Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiadau
Cymhwysiad ac Anghymhwysiad Person i gael ei Ethol a bod yn aelod o Awdurdod Lleol (Adrannau 19-21)	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau unrhyw ffurflenni/canllawiau ar gyfer ymgeiswyr a chynnwys hyn yn y Pecyn Etholiadau i Ymgeiswyr. • Hyn i gael sylw trwy Arweiniad y Comisiwn Etholiadol a sesiynau briffio'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr posib 	JHJ	Disgwyl canllawiau gan y Comisiwn (CE)	Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiadau
Cyfieithiadau ac ati o ddogfennau mewn Etholiadau yng Nghymru (Adran 22)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen sicrhau fod dogfennau yn cael eu cynhyrchu sy'n bodloni gofynion y Bil o ran e.e. Braille/cyfieithiadau ay.y.b. • Bydd angen rhaglennu trefniadau priodol ar gyfer a thu hwnt i etholiadau mis Mai 2022. 	JHJ/AWO	Yn Parhau – disgwyl am wybodaeth bellach gan LIC/CE	Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021] yn amodol ar Adran 3 sydd mewn rhan yn cyfeirio at yr Adran hon yn cael effaith mewn Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022 ac unrhyw etholiad/refferendwm yn dilyn hyn.
Rhan 2 Pennod 1 Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol				

<p>Mae'n diffinio'r pŵer, yn diffinio awdurdod lleol cymhwysol fel Prif Gyngor a 'chyingor cymuned cymwys, gan gynnwys terfynau ar godi ffi wrth arfer y pŵer cyffredinol, terfynau ar wneud pethau at ddibenion masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol, pwerau gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol (Adrannau 24-29)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr UDA i'w gynnwys yn ei Fusnes fel Arfer • Cynnig hyfforddiant/canllawiau ar gyfer swyddogion i sicrhau eu bod yn ymwybodol ohono ac yn deall sut i'w ddefnyddio 	<p>UDA/MJ/LB</p>		<p>1 Tachwedd 2021</p>
<p>Pennod 2 Cynghorau Cymuned cymwys i gymhwyso am y pŵer cymhwysedd cyffredinol (Adrannau 30-37)</p>	<p>Mater i Gyngorau Tref a Chymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth yng nghyfarfodydd y Fforwm • 	<p>JHJ/Cynghorau Tref a Chymuned</p>	<p>Angen amserlennu cyfarfod o'r Fforwm ar gyfer y dyfodol</p>	<p>5 Mai 2022</p>
<p>Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,</p>				
<p>Dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan pan fo llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys gwneud penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall (Adran 39)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r arweiniad presennol ymhellach • Cyfle i edrych ar ymestyn y broses gyfredol e.e. siarad yn gyhoeddus a chwestiynau gan y cyhoedd ym mhob Pwyllgor? • Ystyried materion TGCH/gallu i gael mynediad gyda dyletswydd o'r fath 	<p>JHJ/MH</p>	<p>Cais wedi'i gyflwyno i Llc (Cronfa Ddigidol Cymru) er mwyn ariannu swydd swyddog ymgysylltiad digidol i gefnogi paratoad cynllun ymgysylltu / prosesau</p>	<p>5 Mai 2022</p>

			busnes ac elfennau digidol allweddol o Ran 3	
Paratoi a Chyhoeddi Strategaeth ar annog pobl i gyfranogi (fel yr uchod) ac adolygu'r strategaeth ar ôl pob etholiad llywodraeth leol (Adrannau 40–41)	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd hon (6 pennawd) gan hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau, sut i ddod yn aelod a beth mae aelodaeth yn ei olygu; ffyrdd o hybu a hwyluso prosesau sy'n caniatáu i bobl leol wneud sylwadau ynghylch penderfyniad cyn ac ar ôl y caiff ei wneud, gan ddod â barn y cyhoedd i sylw'r Pwyllgor Craffu a hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddion cyfryngau cymdeithasol fel modd o gyfathrebu. Bydd angen sicrhau ymgynghoriad gydag eraill wrth ddatblygu'r strategaeth. Adolygu cyfranogiad y cyhoedd a'r strategaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl pob etholiad cyffredin, ac eto rhaid ymgynghori gyda thrydydd partion. Angen ei gynnwys yn y Cyfansoddiad fel penderfyniad ar gyfer y Cyngor llawn? 	UDA/JHJ/GM/AD/LB	Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i Adran 40 ddod i rym	5 Mai 2022
Dyletswydd i wneud a chyhoeddi cynllun deisebau ac adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd (Adran 42)	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Cynllun Deisebau (sy'n cynnwys pennawdau penodol yn 42(2)(a)-(e)) yn cynnwys deisebau electronig, ac arweiniad Edrych ar yr arfer orau o fewn llywodraeth leol o ran cynlluniau sy'n bodoli Sicrhau fod proses ar gyfer adolygu'r Cynllun yn achlysurol pan fo'r angen 	JHJ/MH		5 Mai 2022
Dyletswydd ar Brif Gynghorau i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol ar gyfer pob aelod – electronig a phost (Adran 43)	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau fod cyfeiriad post ac ebost ar gyfer pob aelod Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar wefanau'r Cyngor. Mae aelodau nad ydynt yn dymuno gwneud eu cyfeiriad cartref yn gyhoeddus (cyhyd â'u bod yn bodloni gofynion Cod Ymddygiad yr Aelodau) yn defnyddio cyfeiriad CSYM. 	JHJ/MH	Yn cydymffurfio ar hyn o bryd	5 Mai 2022
Cyhoeddi Cyfansoddiad ac arweiniad i gyd-fynd â'r Cyfansoddiad, a rhoi	<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr arweiniad yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi'n electronig Diwygio'r Cyfansoddiad i ddarparu awdurdod dirprwyedig i'r swyddog sy'n gyfrifol am gopiau caled o'r Cyfansoddiad a'r Arweiniad i'r Cyfansoddiad 	LB/JHJ/MH	Mae'r Cyfansoddiad ar gael ar hyn o bryd ar	5 Mai 2022

copïau o'r arweiniad ar gael ar gais (Adran 45)			wefan y Cyngor	
Darllodiadau electronig o gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd (Adran 46)	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> • Bod darllodiadau electronig o gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd fel maent yn digwydd (yn amodol ar eithriadau) a'u bod ar gael am amser penodol yn dilyn y cyfarfod. • Mae'r Bil yn nodi cyfarfodydd Cyngor llawn yn unig – efallai bydd cyfarfodydd eraill yn cael eu cynnwys mewn Rheoliadau pellach • Datblygu rhaglen / cynllun gweithredu • Efallai y bydd angen adolygu'r contract gwe-ddarlledu i ymestyn y gofynion darlledu ychwanegol. Contract presennol yn ei le tan Mawrth 2022. • Ystyried unrhyw ofynion TGCH sydd eu hangen yma [Arian LLC ar gael cyn diwedd Ionawr 2021] 	JHJ/MH/LB		5 Mai 2022
Presenoldeb yng nghyfarfodydd yr awdurdod lleol (mynychu o bell) (Adran 47)	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud a chyhoeddi trefniadau sy'n sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd perthnasol o bell a'u bod yn cwrdd ag amodau Adran 47. • Pan fo'r cyfarfodydd yn rhai Cydbwyllgor, dylai'r Awdurdodau Lleol perthnasol gyhoeddi trefniadau ar y cyd.. • O ganlyniad i COVID-19 mae gweithdrefnau cyfarfodydd o bell mewn lle ar gyfer yr holl Bwyllgorau. Ailymweld â'r gweithdrefnau yn wyneb Adran 47 ac arweiniad posib gan Weinidogion Cymru yn unol â'r adran hon. • Efallai y bydd angen diwygiadau posib i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r amodau i aelod gael mynychu o bell. • O ganlyniad i COVID-19 – mae mesurau mewn lle i ganiatáu cynnal cyfarfodydd o bell trwy gyfarfod rhithiol. • Bydd LL.C yn cyhoeddi canllaw. 	JHJ/LB/MH		18 Mawrth 2021
Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Cyngorau Cymuned (Adran 48)	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno adroddiad codi ymwybyddiaeth i'r Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned. • Ymgysylltu ag Un Llais Cymru i weld pa gefnogath maent yn gynnig i Gyngorau Tref a Chymuned • Mater i Gyngorau Tref a Chymuned – rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu gael gwneud sylwadau ynglŷn ag unrhyw fusnes fydd yn cael ei drafod mewn 	JHJ/LB		5 Mai 2022

	cyfarfodydd oni bai bod y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn ystyried y byddai hynny'n rhagfarnu'r modd y cynhelir y cyfarfod.			
Rhoi hysbysiadau a mynediad i ddogfennau cyfarfodydd (Adran 49)	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn adolygu arferion presennol yn sgil Adran 49 ac Atodlen 3, gan nodi bod CSYM eisoes yn cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd, rhaglenni, cofnodion ac adroddiadau'n electronig ar wefan y Cyngor, a gwneud trefniadau i'r cyhoedd gael gweld rhaglenni a derbyn copiau am ffi copiau. Mae copiau cyfyngedig o Raglenni hefyd ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd. 	LB/JHJ/MH		18 Mawrth 2021
Rheoliadau ynglŷn â'r modd y cynhelir cyfarfodydd awdurdod lleol, dogfennau'n ymwneud â chyfarfodydd a chyhoeddi gwybodaeth (Adran 50)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adran hon yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau cysylltiedig. Adolygu'r rheoliadau pan fyddant ar gael. 	LB/JHJ/MH		Y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol[21 Ionawr 2021] Bydd rhain yn cael eu gwneud ym Mawrth 2021. Mae dyddiadau pan fyddant yn effeithiol wedi eu nodi ar gyfer pob adran.
Rheoliadau ynghylch cyfarfodydd cymuned (Adran 51).	Mae'r adran hon yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau Mae hwn yn fater i Gynghorau Tref a Chymuned			[21 Ionawr 2021]
Adroddiadau Blynyddol gan Gynghorau Tref a Chymuned; rhoi cyfle i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd, Cyhoeddi adroddiad blynyddol am eu blaenoriaethau ac ati Cyhoeddi cynllun hyfforddi.	Mae hwn yn fater i Gynghorau Tref a Chymuned: <ul style="list-style-type: none"> Rhaid paratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol Codi ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd ar flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cyflwyno adroddiad codi ymwybyddiaeth i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Ymgysylltu ag Un Llais Cymru i weld pa gefnogath maent yn 	JHJ/LB		1 Ebril 2022

(Adran 52)	gynnig i Gyngorau Tref a Chymuned			
Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol				
<ul style="list-style-type: none"> • Penodi Prif Weithredwr yn hytrach na Phennaeth Gwasanaeth Taledig • Materion y bydd y Prif Weithredwr yn eu hadolygu'n barhaus • Ail-ystyried cydnabyddiaeth ariannol os ceir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru (Adrannau 54 –56) 	<ul style="list-style-type: none"> • Newid y swydd o Reolwr-Gyfarwyddwr i Brif Weithredwr (eisioes yn cael ei adnabod felly yn CSYM) • Goblygiadau posib i'r Polisi Tâl yn amodol ar gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru (IRPW) • Diwygio'r Cyfansoddiad, os bydd angen, er mwyn sicrhau fod rôl a dyletswyddau fel sydd wedi eu nodi yn Rhan 4 wedi eu cynnwys • Diwygio'r Materion Neilltuol o dan y Cyfansoddiad i gynnwys adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor ynghylch y materion hynny sydd wedi eu nodi yn adran 54* a bod rhaid i'r Cyngor gyfarfod o fewn 3 mis o dderbyn yr adroddiad • * Cynnwys adroddiad o dan adran 54 (rhannol neu y cyfan): <ul style="list-style-type: none"> - y modd y cydgysylltir sut y mae'r cyngor yn arfer ei wahanol swyddogaethau; - trefniadau'r cyngor mewn perthynas ag cynllunio ariannol, rheoli asedau, a rheoli risg; - nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y cyngor er mwyn arfer ei swyddogaethau; - trefniadaeth staff y cyngor; - penodi staff y cyngor; - y trefniadau ar gyfer rheoli staff y cyngor (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu). 	LB/AM/DW		Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol (Adran 55, sy'n newid y cyfeiriad o gyflog i gydnabyddiaeth ariannol) [Mawrth 2021] A54 ac A56 – 5 Mai 2022
Penodiadau cynorthwywyr i'r Aelodau Pwyllgor Gwaith (heb dâl) a gaiff eu penodi gan yr Arweinydd i gynnwys manylion am eu cyfnod	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor (Trefniadau'r Pwyllgor Gwaith) i ganiatáu penodi cynorthwywyr i'r Aelodau Pwyllgor Gwaith a gall gynnwys manylion am (A) nifer yr apwyntiadau; (b) tymor y swydd ac (c) eu cyfrifoldebau. • Y Cyfansoddiad i gynnwys hawl i'r Arweinydd benderfynu ar y penodiadau. 	Arweinydd / LB /JHJ		5 Mai 2022

yn y swydd, cyfrifoldebau a nifer y cynorthwyr (ni chaiff cynorthwyr fod yn Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Cyngor nac yn Aelod Pwyllgor Gwaith) (Adran 57)				
Galluogi rhannu swydd ar gyfer swyddi'r Arweinydd ac Aelod Pwyllgor Gwaith (Adrannau 58-59)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd amodau'n cael eu llunio a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad. • Diwygio'r broses fewnol – e.e. y Deilydd Portffolio yn cymeradwyo adroddiadau • Goblygiadau o ganlyniad i'r cap ar uwch gyflogau/rhannu uwch gyflogau? • Cadw mewn cof y goblygiadau hyn • Yr Arweinydd i benderfynu ar y penodiadau • Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ymgorffori yn Nhrefniadau'r Weithrediaeth ddarpariaeth i alluogi dau neu ragor o gynghorwyr i rannu swydd ar y Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys swydd Arweinydd y Pwyllgor Gwaith; newid uchafswm yr Aelodau ar y Pwyllgor Gwaith pan fydd rhai'n rhannu swydd; a rhoi sylw i'r mater o bleidleisio a chworwm pan fydd Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd. 	Arweinydd /Aelodau Pwyllgor Gwaith/JHJ/LB		A59 – 6 Mawrth 2021. A58 – 5 Mai 2022
Rhannu swyddi: swyddi nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith mewn Prif Gynghorau. Y grym gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau. (Adran 60)	<ul style="list-style-type: none"> • Os caiff rheoliadau ei cyflwyno, monitro ac adrodd am hynny i'r Cyngor pan fyddant mewn grym. • Mae swyddi prif Gyngor at ddibenion yr adran hon yn ymwneud â: <ul style="list-style-type: none"> - Cadeirydd Prif Gyngor - Is-gadeirydd Prif Gyngor - Cadeirydd Pwyllgor neu Is-bwyllgor Prif Gyngor - Is-gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor neu Is-bwyllgor Prif Gyngor - 	JHJ		Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021]
Newidiadau i ddarpariaethau absenoldeb teuluol (Adran 61)	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu gweithdrefn ar gyfer Aelodau Etholedig ac wedi hynny rhoi gwybod am y weithdrefn i'r holl Aelodau ac ymgeiswyr posib mewn etholiadau Llywodraeth Leol yn y dyfodol • Unrhyw newidiadau o ganlyniad i hyn ar gyfer y Cyfansoddiad 	JHJ/LB		1 Ebrill 2021

<p>Ymddygiad yr Aelodau – Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad. Y Pwyllgor Safonau – i fonitro cydymffurfiaeth â'r uchod a darparu hyfforddiant (Adran 62)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r Cyfansoddiad • Sesiwn briffio gan y Swyddog Monitro i'r Arweinyddion Grŵp • Y Pwyllgor Safonau – diwygio'r Cylch Gorchwyl. • Ystyried y Protocol Datrysiad Lleol • Goblygiadau ar y Côd Ymddygiad / Canllaw gan OGCC? – Ystyried pan dderbynir diweddariad 	<p>Arweinyddion Grŵp / LB / Pwyllgor Safonau</p>		<p>5 Mai 2022</p>
<p>Y Pwyllgor Safonau i baratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd blwyddyn ariannol (Adran 63)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn digwydd yn barod yn CSYM • Adolygu'r Cyfansoddiad (y Cyngor a'r Pwyllgor Safonau) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth efo'r materion â restrir yn 63(1) a bod rhaid ystyried yr adroddiad o fewn 3 mis o'i derbyn • Bydd yr adroddiad cyntaf o dan y drefn hon ar gyfer y cyfnod 2022-2023 	<p>LB</p>	<p>Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol</p>	<p>Mai 2022</p>
<p>Ymchwiliadau penodol gan OGCC - diwygiadau i atodlen 8 (Adran 64)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau • Derbyn Canllawiau gan swyddfa OGCC 	<p>LB</p>		<p>Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiad</p>
<p>Rhoi gwybodaeth ar gael i Bwyllgorau Sgriwtini (Adran 65)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r trefniadau presennol yn unol â'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ar gael ynghylch penderfyniadau. • Adolygu'r Cyfansoddiad (Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgorau Sgriwtini) er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. 	<p>JHJ/AD</p>		<p>5 Mai 2022</p>

Y pŵer i LIC ofyn i Awdurdodau Lleol benodi Cydbwyllgorau Sgriwtini(Adran 66)	Posib fod angen newid y Cyfansoddiad ayyb yn ddibynol ar dderbyn mwy o wybodaeth gan LIC	JHJ/AD		5 Mai 2022
Cynlluniau Hyfforddi Cynghorau Cymuned (Adran 67)	<p>Mae hwn yn fater i Gyngorau Tref a Chymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth o'r angen i adrodd ar flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. • Cyflwyno adroddiad codi ymwybyddiaeth i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. • Pwyllgor Safonau i godi ymwybyddiaeth pan yn cynnal ei adolygiadau o Gofrestrau Diddordeb yn y CTC (cynhelir rhain bob yn ail flwyddyn fel rheol) (cynhelir y nesaf yn ystod 2021) • Ymgysylltu ag Un Llais Cymru i weld pa gefnogath maent yn gynnig i Gyngorau Tref a Chymuned • Rhannu gwybodaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned • Bydd raid llunio'r cynllun hyfforddi cyntaf ddim hwyrach na 6 mis ar ôl y daw Adran 67 i rym. • Gyda chynlluniau hyfforddi newydd ddim hwyrach na 3 mis ar ôl pob etholiad cyffredin, a'u hadolygu o bryd i'w gilydd. • Ymgysylltu ag Un Llais Cymru i weld pa gefnogath maent yn gynnig i Gyngorau Tref a Chymuned 	LB/JHJ/Pwyllgor Safonau / Cynghorau Tref a Chymuned		5 Mai 2022
Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gyngorau				
Arweiniad ynglŷn â chydweithio (Adran 69)	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried yr arweiniad a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru 	AM		Y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol [21 Ionawr 2021]
Y pŵer i Awdurdodau Lleol ymgeisio i Weinidogion Cymru i gael sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol ("CC")	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Adrannau 70 – 73 yn ymdrin â sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol pan fo cais wedi'i wneud gan Brif Gyngor • Mae Adrannau 74 – 88 yn ymdrin â sefydlu CC pan nad oes cais wedi'i wneud gan y Prif Gyngor, mae'r Cydbwyllgorau Corfforaethol hyn yn destun Rheoliadau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 4 Ionawr 2021 fel y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar hyn. Mae CSYM wedi anfon ei ymateb. 	AM		Y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol [21 Ionawr 2021]

<p>Cynhelir ymgynghoriad cyn gwneud y cais (Adran 70 a 71) O dan y rheoliadau caiff Gweinidogion Cymru sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (Adran 72) Amodau cyn gwneud cais Adran 72 (Adran 73) Sefydlu CC pan nad oes cais wedi'i wneud (Adran 74) Darpariaethau'n ymwneud â Cydbwyllgorau Corfforaethol a Rheoliadau Cydbwyllgor (Adran 76-88)</p>	<p>Roedd y mater yma yn destun sesiwn briffio'r Cyngor ar 4 Chwefror 2021.</p>			
<p>Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif Gyngorau a Dyletswydd Prif Gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus</p>				
<p>Awdurdodau Lleol i ddatblygu fframwaith perfformiad syml newydd ac adrodd ar ei berfformiad ac ymgynghori o leiaf unwaith y flwyddyn. Awdurdodau Lleol i adolygu eu perfformiad yng nghyswllt</p>	<p>Mae fformat yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi'r sail i hyn, yn canolbwyntio ar ddeilliannau'r Cynllun Corfforaethol a'r amcanion llesiant, ond bydd angen rhoi ystyriaeth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fwy o wybodaeth ar y defnydd o adnoddau (rydym yn cynnig cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r saith maes gweithgaredd craidd) • Cynllunio corfforaethol • Cynllunio ariannol • Cynllunio'r gweithlu (pobl) • Caffael • Asedau • Rheoli risg • Bydd angen gwybodaeth ar reoli perfformiad 	<p>AM</p>		<p>1 Ebrill 2021</p>

<p>a) cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol</p> <p>b) defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol,</p> <p>c) bod ei drefn lywodraethu yn effeithiol er mwyn sicrhau'r materion a amlinellir ym mharagraffau a) a b)</p> <p>(Adran 89)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyriaeth i'r rhyngwyneb â'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol – er mwyn adnabod unrhyw elfennau cyffredin a phwyntiau sy'n ategu ei gilydd. 			
<p>Dyletswydd i ymgynhori ar berfformiad efo pobl leol (Adran 90)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i CSYM ymgynhori efo'r partion sy'n cael eu rhestru yn adran 90 (pobl leol, staff ac undebau cydnabyddedig) ynghylch y graddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad. Rhaid gwneud hyn o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol. 	GM		1 Ebrill 2021
<p>Cwblhau hunan-asesiad blyneddol. Cyhoeddi adroddiad drafft o'r asesiad a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyhoeddi adroddiad terfynol. (Adran 91)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hunan-asesiad cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol • Cyflwyno adroddiad am yr asesiad drafft i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn ei gymeradwyo • O fewn 4 wythnos i'r Cyngor gymeradwyo ei adroddiad hunan-asesu, mae'n rhaid iddo ei gyhoeddi, ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'i anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac at Gweinidogion Cymru. • Mae'r Bil yn derbyn y gall yr adroddiad hunanasesu at y diben hwn fod yr un ddogfen ag adroddiad CSYM ar gyflawni ei amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) • Parhau efo adrodd o dan y drefn yn y Mesur 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-2021. Bydd y drefn newydd ar gyfer perfformiad yn berthnasol ar gyfer 2021-2022. Bydd yr hunan- 	AM		1 Ebrill 2021

	<p>asesiad cyntaf a'r adroddiad o dan y drefn newydd ei hangen erbyn 2022-2023.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd L.I.C yn cyhoeddi canllaw ar y gofynion perfformiad a llywodraethiant ym Mawrth 2021. 			
<p>Y Cyngor i wneud trefniadau i benodi panel i asesu i ba raddau y mae'n cwrdd â gofynion perfformiad. (Adran 92)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd asesiad perfformiad gan banel yn cael ei wneud unwaith yn y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol (byddwn yn rhoi ystyriaeth i amseriad yr asesiad, gan hefyd roi ystyriaeth i'r asesiad panel ddigwydd yn y flwyddyn cyn cynllun corfforaethol newydd [cynllun presennol CSYM yn rhedeg 2017-2022] fel rhan o osod y cyfeiriad i'r cynllun). • Bydd ymgynghoriad yn unol ag Adran 92 yn digwydd yn dilyn yr asesiad, ac adroddiad y panel yn cael ei lunio. • Bydd hwn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a'i gyhoeddi, a'i anfon i'r partion sy'n cael eu rhestru yn adran 92. • Datblygu sgerbwd Cylch Gorchwyl arfaethedig a chyfansoddiad arfaethedig y panel yn barod at hyn. 	AM		5 Mai 2022
<p>Yr Awdurdod Lleol i ymateb i asesiad perfformiad y panel (Adran 93)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • I'w adrodd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Mae Adran 93 yn ymdrin â chynnwys yr adroddiad/yr ymateb. • Bydd yr ymateb drafft yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a'r Pwyllgor yn cael y cyfle i wneud argymhellion am newidiadau i'r ymateb drafft. • Y Cyngor i roi rheswm os nad yw'n derbyn sylwadau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. • Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ymateb cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r ymateb yn derfynol. • Bydd angen diweddarau cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnwys yr uchod. 	AM		5 Mai 2022
<p>Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynglŷn ag asesiadau perfformiad gan banel (Adran 94)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw golwg ar y rheoliadau hyn yn barhaus. 	LB/JHJ		Ebrill 2021

Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a'r ddyletswydd i Brif Gyngor ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol os ystyrir fod Prif Gyngor wedi methu â chwrdd â'i ofynion perfformiad. Dyletswydd Prif Gyngor i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru (Adran 95)	I'w nodi	Yr Archwilydd Cyffredinol		Ebrill 2021
Pwerau Arolygu gan yr Archwilydd Cyffredinol a ffioedd. (Adran 98 - 101)	I'w nodi	Yr Archwilydd Cyffredinol		Ebrill 2021
Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru i wella perfformiad, a phwerau i ymyrryd (Adran 102 - 112)	I'w nodi			Ebrill 2021
Datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â Phrif Gynghorau a diddymu darpariaethau ynglŷn â chydlynu archwiliad. (Adran 113)	I'w nodi			Ebrill 2021
Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Adran 114)	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi ystyriaeth i gyfuno'r adroddiad hunanasesu perfformiad â'r adroddiad yn unol â Deddf 2015. 	GM		Ebrill 2021

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (PALI) (Adrannau 115–118)	<ul style="list-style-type: none"> • Hysbysebu ac ymgymryd ag ymarfer recriwtio a dethol ar gyfer aelodau lleyg. Yna, trefnu hyfforddiant. • Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor: <ul style="list-style-type: none"> • Ail-enwi'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu • Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor • Mae'n rhaid i Gadeirydd y PALI fod yn aelod lleyg • Traean yr Aelodau i fod yn bobl leyg • Ni chaiff y Dirprwy Gadeirydd (yn hytrach na'r Is-Gadeirydd) fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn yr Awdurdod Lleol nac yn gynorthwyyr i aelodau'r Pwyllgor Gwaith. 	MJ/MP/LB/AM		<p>Adran 115 [enw, gweithrediad o ran cwynion a threfn llywodraethiant] = 1 Ebrill 2021</p> <p>Adran 116-118 [aelodaeth a statws cadair/dirprwy] = Mai 2022</p>
Cydgysylltu rhwng Rheoleiddwyr (Adrannau 119-120)	I'w nodi	Archwilydd Cyffredinol Cymru a Rheoleiddwyr perthnasol		Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiad
Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd				
Uno'n wirfoddol, disgresiwn lleol ac amodau'n gysylltiedig â Gweinidog Cymru yn gwneud rheoliadau ailstrwythuro a threfniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Prif Gynghorau newydd (Adrannau 121-150)	<ul style="list-style-type: none"> • I'w nodi • Diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn ei gynnwys fel mater sydd angen penderfyniad Cyngor llawn. 	AM/LB		Y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol [21 Ionawr 2021] yn bennaf, gyda nifer o ddarpariaethau ar ddyddiadau a bennir gan Weinidogion Cymru – 1 Ebrill 2021
Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol				

<ul style="list-style-type: none"> • Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig, pwerau i arolygu eiddo, diwygiad i luosyddion, diwygiad i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar atebolrwydd ar y cyd, ac atebolrwydd unigol i dalu treth Gyngor. • Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor (Adrannau 151 - 158) 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu gweithdrefnau gwaith mewnol y Gwasanaeth Adnoddau (Cyllid). • Adolygu'r Cyfansoddiad gan gynnwys pwerau dirprwyedig swyddogion. • Adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn y Cyfansoddiad 	MJ/LB		Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol (Adrannau 152, 154-156 ac 158) [Mawrth 2021] 1 Ebrill 2021 (Adrannau 151, 153 ac 157)
Rhan 9 – amrywiol				
Rhannu Gwybodaeth rhwng Rheoleiddwyr (Adran 159)	I'w nodi	HPP		Y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol yn bennaf ac i'r graddau nad ydynt wedi gwneud hynny, ar 1 Ebrill 2021

Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd (Adran 161)	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r Polisi Tâl, Prif Swyddogion i gynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd 	CE		5 Mai 2022 (a161(1) – 6 Mawrth 2021)
Diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfod cymunedol (Adran 162)	<p>Mae hwn yn fater i'r Cyngorau Tref a Chymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno adroddiad codi ymwybyddiaeth i'r Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned. • Rhannu gwybodaeth gyda Chyngorau Tref a Chymuned • Ymgysylltu ag Un Llais Cymru i weld pa gefnogath maent yn gynnig i Gyngorau Tref a Chymuned 	JHJ		5 Mai 2022
Goblygiadau ar gyfer uno a daduno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Adran 165)	I'w nodi	AM		Dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol [Mawrth 2021]

Rhan 10 – Atodlenni

Atodlen 1	Adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol ac ati
Atodlen 2	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag etholiadau
Atodlen 3	Diwygiadau mewn perthynas â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ymwneud â Phrif Gyngorau a Chyngorau Tref a Chymuned
Atodlen 4	Hysbysiad o gyfarfodydd Awdurdodau Lleol, mynediad at ddogfennau a phresenoldeb yn y cyfarfodydd
Atodlen 5	Diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â Phrif Weithredwyr
Atodlen 6	Diwygiadau canlyniadol ac ati mewn perthynas â chynorthwyr i Weithrediaethau Awdurdodau Lleol
Atodlen 7	Rhannu swyddi gan Arweinyddion Gweithrediaeth ac Aelodau Gweithrediaeth
Atodlen 8	Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol: ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
Atodlen 9	Diwygiadau'n ymwneud â Chydbwyllgorau Corfforaethol yn cynnwys creu swyddogaethau cynllunio strategol ar gyfer rhai cydbwyllgorau corfforaethol penodol a diddymu pwerau i sefydlu paneli cynllunio strategol a diddymu'r pŵer o sefydlu cyd-awdurdodau trafndiaeth

Atodlen 10	Diwygiadau canlyniadol yn ymwneud ag ailenwi Prif Gyngor ar gyfer y Pwyllgorau.
Atodlen 11	Pwyllgorau Trosiannol Cynghorau sy'n uno a Chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro.
Atodlen 12	Cyfngiadau ar drafodiadau a recriwtio ac ati gan Gynghorau sy'n uno a Chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro
Atodlen 13	Diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfodydd cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
Atodlen 14	Diwygiadau canlyniadol yn ymwneud ag uno a daduno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Allwedd

LB	Lynn Ball
AD	Anwen Davies
CE	Carys Edwards
MH	Mathew Henshaw
JHJ	Huw Jones
MJ	Marc Jones
AM	Annwen Morgan
GM	Gethin Morgan
AWO	Arwel Wynn Owen
HPP	Huw Pierce Pritchard
MP	Marion Pryor
DW	Dylan Williams
UDA	Uwch Dîm Arweiniol